Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 28.04.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Diogelwch menywod a thrais ar sail rhywedd** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

| **Cyflwyniad** |
| --- |
| Nodwn y rôl hanfodol sydd gan leoliadau addysg, ac ysgolion yn benodol, wrth atal trais ar sail rhywedd a chefnogi dysgwyr sy'n cael profiad o hyn yn eu bywyd personol neu eu bywyd cartref.<br><br>Er bod darpariaeth ysgolion wedi gwella gydag amser, mae ein hymateb yn amlygu meysydd y mae gan ysgolion waith pellach i'w wneud arnynt i wella'u gwaith atal ac ymyrryd. Hefyd, rydym yn ceisio rhannu agweddau ar arfer effeithiol a nodom trwy ein harolygiadau craidd a thematig. |

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Beth sy'n gweithio i atal trais ar sail rhywedd cyn iddo ddigwydd (atal sylfaenol) ac ymyrryd yn gynharach i atal trais rhag gwaethygu (atal eilaidd).**

Cyhoeddom Adolygiad o addysg perthnasoedd iach yn 2017. Un o ddibenion yr adroddiad hwn oedd llywio'r broses o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Er ei fod yn chwech oed, mae'r adroddiad yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer ystyried gwaith mewn ysgolion ynghylch trais ar sail rhywedd.

**Atal trais ar sail rhywedd**

O ran ymdrechion i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd, mae gan ysgolion ran ataliol hollbwysig i'w chwarae. Dylai ysgolion hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd cadarnhaol. Dylent helpu disgyblion i ddeall eu hawliau, parchu hawliau pobl eraill, adnabod ymddygiadau nad ydynt yn rhai iach a gwybod pa gamau i'w cymryd os ydynt yn pryderu am eu hiechyd neu eu lles eu hunain neu am iechyd neu les rhywun arall.

O fewn y Cwricwlwm i Gymru, heblaw am faes dysgu a phrofiad iechyd a lles, mae tair thema drawsgwricwlaidd berthnasol: addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh), hawliau dynol ac amrywiaeth. Fel y mae'r cyflwyniad i ganllawiau ACRh yn ei ddatgan:

> 'Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae wrth greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau diogel, iach a boddhaus gydol eu bywydau. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn creu cymdeithas sy'n trin pobl eraill â dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, a rhyw, rhywedd neu rywioldeb'.

Mae ACRh yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru. O fewn ACRh, mae'r cynnwys gorfodol ar gyfer y llinyn grymuso, diogelwch a pharch yn arbennig o berthnasol.

Gall arolygiad ysgol amlygu cryfderau neu bryderon am ACRh neu ddarpariaeth ehangach ar gyfer maes dysgu a phrofiad iechyd a lles, neu addysg bersonol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r tabl isod yn amlygu rhai sylwadau perthnasol o arolygiadau ysgolion uwchradd yn ystod y flwyddyn bresennol.

| Ysgol | Sylwadau yn yr adroddiad arolygu |
|---|---|
| **Rhisga** | Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Cyflwynir hyn yn bennaf trwy raglen ABCh ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) gynhwysfawr a chwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg, ynghyd â chyfnodau 'ystafell gartref' a gwasanaethau. |
| **Y Frenhines Elisabeth** | Mae darpariaeth ABCh yn ymatebol i anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio data yn effeithiol o arolygon disgyblion i gynllunio sesiynau ataliol am broblemau fel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, gan elwa ar arbenigedd allanol yr heddlu a gwasanaethau meddygol pan fo'n briodol. |
| **Calon Cymru** | Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion disgyblion, ar y cyfan, gyda ffocws sensitif ar faterion fel perthnasoedd iach. Fodd bynnag, ceir darpariaeth gyfyngedig ar gyfer ABCh berthnasol a chyfoes i ddisgyblion hŷn. |
| **Bodedern** | Mae'r clwb LGHDT+ yn darparu cefnogaeth bwysig ac yn rhoi llais i ddysgwyr o ran eu rhywioldeb... Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen ABCh ar draws yr ysgol wedi'i chynllunio'n ddigon strategol i godi ymwybyddiaeth lawn disgyblion o'u lles, iechyd meddwl a'u hanghenion emosiynol. |
| **Rhyl** | Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm personol, cymdeithasol, emosiynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr i ddisgyblion ... Mae hefyd yn hyrwyddo parch tuag at y gymuned LHDTC+ ac yn galluogi disgyblion i herio stereoteipiau a rhagfarn yn dda. |
| **Morgan Llwyd** | Fodd bynnag, nid yw ABCh wedi'i chynllunio'n ddigon cydlynus a strategol i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr, gyson a chynyddol i ddisgyblion ym mhob blwyddyn, yn enwedig disgyblion hŷn yr ysgol. |
| **Y Brenin Harri VIII** | Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) strwythuredig yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft ynglŷn â bwyta'n iach, perthnasoedd, camddefnyddio alcohol a sylweddau, a diogelwch ar-lein. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol sy'n cefnogi ac yn ymestyn cyflwyno'r cwricwlwm ABCh, er enghraifft o ran hanes a phrofiadau cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a LHDTC+. |
| **Eastern High** | Mae cyfleoedd cyfyngedig i'r holl ddisgyblion ddysgu am faterion pwysig priodol i'w hoedran, a deall y rhain, er enghraifft camddefnyddio sylweddau, iechyd rhywiol ac effaith dewisiadau ac ymddygiadau ffordd o fyw ar iechyd a lles. |

Fe wnaeth ein hadroddiad Dydyn Ni Ddim Yn Dweud Wrth Ein Hathrawon yn 2021 ddarganfod y canlynol mewn ysgolion uwchradd:

Dywed llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan nad ydynt wedi cael digon o addysg rhyw a chydberthynas. Dywed disgyblion hŷn mewn llawer o ysgolion nad ydynt wedi cael unrhyw addysg rhyw o gwbl, a'u bod yn awyddus iawn i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynghyd â chyfleoedd i drafod rhyw a pherthnasoedd mewn awyrgylch diogel a chyfforddus. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi gwersi addysg bersonol a chymdeithasol wedi eu cyflwyno'n dda, ond dywedant nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i drafod materion pwysig fel parch, perthnasoedd iach, ymddygiadau rhywiol niweidiol a hawliau LHDTC+. Dywed llawer ohonynt eu bod eisiau gweld mwy o amser yn cael ei roi i drafod 'materion bywyd go iawn' yn yr ysgol.[1]

Mae cyfyngiadau amser ac adnoddau'n golygu na allwn edrych yn fanwl ar bob agwedd ar waith ACRh ysgol yn ystod arolygiad. Trwy ein hadroddiadau thematig, sy'n cynnwys tystiolaeth o ymweliadau dydd â ffocws penodol ag ysgolion, rydym wedi amlygu'n aml fod mwy o waith y gallai ysgolion ei wneud. Yn 'Adolygiad o addysg perthnasoedd iach' yn 2017, nodom nad yw ysgolion bob amser yn cyflawni eu rôl cystal ag y gallent:

'Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd sy'n gwasanaethu poblogaeth amrywiol sydd ag amrywiaeth eang o draddodiadau diwylliannol yn trefnu darpariaeth gref ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o arwahanrwydd a gwahaniaethu cymdeithasol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn cysylltu'n dda ag asiantaethau arbenigol, fel BAWSO, i roi hyfforddiant a chyngor i staff ar anghenion penodol disgyblion o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd ble nad yw cymunedau'n amrywiol, nad ydynt yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i broblemau trais yn erbyn menywod. O ganlyniad, nid ydynt yn rhoi hyfforddiant priodol i staff i nodi ac ymateb i bryderon o'r natur hon, ac nid ydynt yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol. Er enghraifft, mae tystiolaeth gan asiantaethau arbenigol yn dangos nad yw pob athro'n ymwybodol o'r ddyletswydd adrodd orfodol a osodir arnynt ynglŷn ag anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)'. [2]

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod pa mor dda y mae ysgolion wedi symud ymlaen â'r materion a godwyd yn yr adroddiad gan nad ydym wedi cael cais gan y Gweinidog i ddilyn y gwaith hwn i fyny.

Mae ein hadroddiad Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant yn amlygu arfer dda wrth gefnogi dysgwyr lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT) mewn ysgolion a cholegau. Mae'n nodi angen tebyg am fwy o ddysgu proffesiynol i staff allu hyrwyddo perthnasoedd iach yn hyderus.

**Ymyrryd yn gynt i atal trais rhag gwaethygu**

O ran gwaith ymyrryd mewn lleoliadau addysg, rydym wedi amlygu a hyrwyddo'r defnydd ar ddulliau adferol fel ffordd effeithiol o ddelio â gwrthdaro a hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, fe wnaeth ein hadroddiad, Iach a hapus, gynnwys y canlynol:

'Mae ysgolion da'n defnyddio dulliau adferol i atal problemau rhag gwaethygu, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael yn ystod profiadau dysgu neu i ddatrys anghydfodau ymhlith disgyblion. Mae defnyddio dulliau adferol yn parchu gwerth

[1] Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, tudalen 8

[2] Adolygiad o addysg perthnasoedd iach, tudalen 15

pawb dan sylw ac yn annog perthnasoedd empathig. Mae dulliau adferol yn gweithio'n arbennig o dda lle y defnyddir y dull hefyd gan swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid a staff allanol eraill sy'n gweithio gyda disgyblion a'u teuluoedd y tu allan i'r ysgol, gan fod cysondeb yn y dull o ddatrys anghydfod yn atgyfnerthu agweddau a medrau disgyblion. Mewn ysgolion nad ydynt yn defnyddio dulliau adferol, neu nad ydynt yn eu defnyddio'n gyson, mae enghreifftiau o ymddygiad gwael yn fwy tebygol o waethygu i fod yn ddigwyddiadau mwy difrifol neu'n rhai cyson ac mae disgyblion yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol'. [3]

Ymddangosodd negeseuon tebyg am y defnydd effeithiol o ddulliau adferol mewn adroddiadau thematig eraill hefyd:

- Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (2020)
- Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed – astudiaethau achos arfer dda (2020)
- 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru (2021)

Mae ein hadroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' yn cynnwys argymhelliad i awdurdodau lleol 'roi trefniadau arferol ar waith' wrth weithio gydag ysgolion i ddelio â bwlio ac aflonyddu.

Mae gennym nifer o astudiaethau achos am ysgolion unigol sy'n cyfeirio at eu defnydd effeithiol o ddulliau adferol hefyd, er enghraifft:

- Defnyddio ymagwedd anogol at reoli gwrthdaro
- Diwylliant yr ysgol yn canolbwyntio ar hawliau plant
- Gwella deilliannau disgyblion trwy ddarpariaeth anogaeth hynod effeithiol
- Ymateb graddedig hynod effeithiol sy'n hyrwyddo cynhwysiant yn llwyddiannus

Nododd ein hadroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' y canlynol am ddigwyddiadau a wnaeth gynnwys dau ddisgybl neu fwy mewn ysgolion uwchradd:

> 'Fel arfer, mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i gwynion ffurfiol gan rieni neu ddisgyblion am aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, ac yn atgyfeirio'n briodol i asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Mae mwyafrif yr ysgolion yn gweithredu ymagwedd adferol at ymddygiad gwael, bwlio ac achosion hysbys o aflonyddu, ac yn defnyddio asiantaethau allanol yn dda i gefnogi eu gwaith. Mae hyn fel arfer yn cynnwys darparu cefnogaeth addas megis cwnsela i ddioddefwyr.' [4]

Fwyfwy, mae heddluoedd yn hysbysu ysgolion os oes cam-drin domestig wedi digwydd gartref cyn bod y disgybl yn dod i'r ysgol y tro nesaf, yn enwedig pan fydd hysbysiadau gwarchod wedi'u cyflwyno (Operation Encompass). Mae ein hadroddiad uchod ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys enghreifftiau o'r ffordd y mae'r gwaith hwn yn cefnogi ysgolion yn effeithiol i ofalu am les disgyblion sydd wedi'u heffeithio a gweithio'n sensitif gyda'u teulu.

---

[3] Iach a hapus – effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion (llyw.cymru), tudalen 15
[4] 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, tudalen 8

Nododd adroddiad ein hadolygiad o berthnasoedd iach yn 2017:

> ‘Bron ym mhob un o’r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae’r uwch unigolyn dynodedig ar gyfer diogelu wedi cael hyfforddiant ychwanegol i’w wneud yn ymwybodol o drais domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sydd â threfniadau effeithiol i rannu’r hyfforddiant hwn gyda staff eraill.’
>
> ‘Tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn unig oedd yn ymwybodol o arweiniad statudol Llywodraeth Cymru, ‘Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol’ (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae staff mewn ychydig iawn o ysgolion yn unig wedi cael yr hyfforddiant.’ [5]

Er bod y ffocws ychydig yn wahanol, fe wnaeth ein hadroddiad yn 2021, ‘Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon’ – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, nodi pryderon o hyd am ddysgu proffesiynol i staff:

> ‘Dywed pob ysgol fod angen mwy o hyfforddiant a chymorth arnynt i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol ysgol gyfan ar sut i ymgysylltu’n rhagweithiol mewn sgyrsiau gyda disgyblion am faterion rhywedd ac aflonyddu rhywiol. Hefyd, mae angen iddynt gael hyfforddiant ... ar faterion LHDTC+.’[6]

Nododd yr adroddiad hwn y canlynol hefyd:

> ‘Ceir anghysondeb cyffredinol ymhlith staff ysgolion am eu dealltwriaeth o beth mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ei olygu, yn cynnwys materion ehangach yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth a sut maen nhw’n effeithio ar ddisgyblion.
>
> Hyd yn oed o fewn ysgolion, mae anghysondeb yn y ffordd y mae athrawon yn ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol. Yn yr achosion gwaethaf, mae athrawon yn wfftio neu’n anwybyddu achosion o aflonyddu rhywiol geiriol gan ddisgyblion tuag at eu cyfoedion.’[7]

Mae recordio digwyddiadau a honiadau o ddigwyddiadau yn effeithiol yn bwysig fel y gellir monitro problemau dros gyfnod a’u dilyn i fyny lle bo’r angen. Canfu ein hadroddiad ‘Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon’:

> ‘Er gwaethaf y ffaith fod ysgolion yn cofnodi digwyddiadau’n ymwneud ag ymddygiad a bwlio at ei gilydd, nid ydynt yn gwneud defnydd cynhyrchiol o’r data a’r wybodaeth sydd ar gael iddynt gategoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion yn ddigon da nac yn nodi tueddiadau. Mae hyn yn atal ysgolion rhag cael darlun cywir o raddau gwahanol fathau o fwlio ac aflonyddu, fel aflonyddu rhywiol. Mewn llawer o achosion, nid yw ysgolion yn cofnodi achosion o aflonyddu rhywiol yn systematig, ac yn aml, mae eu dosbarthiad o ‘fwlio’ yn rhy

[5] Adolygiad o addysg perthnasoedd iach, tudalen 15
[6] ‘Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon’ – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, tudalen 10
[7] Ibid, tudalen 8

eang ac nid yw'n galluogi'r ysgol i gofnodi a gwerthuso achosion o fwlio homoffobig, rhywiaethol neu fwlio â chymhelliant hiliol.'[8]

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi mai 'prin yw'r achosion o fwlio y mae ysgolion yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol amdanynt, ac anaml y byddant yn adrodd ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion' ac 'mae diffyg cysondeb yn y modd y mae awdurdodau lleol yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ysgolion ar fwlio ac aflonyddu, er enghraifft i gynllunio ymyrraeth neu hyfforddiant i staff'.'[9]

**Pa mor effeithiol yw ymdrechion i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd a beth arall y mae angen ei wneud i ymdrin ag anghenion grwpiau gwahanol o fenywod, gan gynnwys LHDT+, lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a hŷn sydd mewn perygl o ddioddef trais yn y cartref ac mewn mannau cyhoeddus.**

Rydym wedi ateb y cwestiwn hwn i'r graddau ag y gallwn yn ein hymateb i'r cwestiwn cyntaf.

**Beth yw rôl y sector cyhoeddus a gwasanaethau arbenigol (gan gynnwys yr heddlu, ysgolion, y GIG, y trydydd sector a sefydliadau eraill y mae menywod a merched yn troi atynt am gymorth) wrth nodi trais yn erbyn menywod, mynd i'r afael â'r math hwn o drais a'i atal, a'u rôl nhw yn y gwaith o gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr.**

Rydym wedi ateb y cwestiwn hwn i'r graddau ag y gallwn yn ein hymateb i'r cwestiwn cyntaf.

[8] Ibid, tudalen 9
[9] Ibid, tudalen 10